

Cerddoriaeth roc

Beth yn union ydy gig roc?

Wel, torf anferth, llawn cyffro a chwys, yn neidio i fyny ac i lawr efo'i gilydd, efo rhai pobl yn mynd dros ben llestri yn prynu nwyddau, a phobl eraill yn gwybod y geiriau i gyd, gan weiddi canu ar dop eu lleisiau.

Ond yn fwy na dim, y band ar y llwyfan sy'n gwneud gig. Y drymiau, y bas, y canwr, a'r gitâr drydan.

Sain roc ydy sain y gitâr drydan. Ond nid sain fach glân, taclus buasai dy nain yn ei leicio. Na, mae sain roc yn uchel, yn drwm, ac yn mwydro dy ben. Ystumiant ydy'r peth sylfaenol. A'r ffordd mae'r sain wedi ei mwyhau.

Mae'r trac *Anifail* gan Candelas yn enghraifft dda. Reit ar y cychwyn, mae 'na ríff gafaelgar sy'n rhoi blas o'r gân i ni.

Mae'r dilyniadau cordiau yn eithaf syml yn y rhagarweiniad, y pennill a'r gytgan. Yr un cordiau o brif gywair E leiaf sy'n ailadrodd.

Erbyn cyrraedd canol y gân, mae'r drymiwr yn taro'n galed, a'r gitarau'n chwarae cordiau pŵer, sef cordiau sydd wedi cael gwared o drydydd nodyn y raddfa, gan adael dim ond y nodyn cyntaf a'r pumed nodyn. Mae cordiau pŵer yn swnio'n fwy agored, ac maen nhw'n fwy amlwg.

Y gitâr drydan ydy'r seren roc. Ond mae'r gytgan yn chwarae rhan allweddol hefyd. Y gytgan ydy'r rhan rydym ni i gyd yn canu'n uchel efo'r band. Felly, mae angen un gryf.

Mae cytgan y Candelas i'w chlywed yn glir. Maen nhw'n arwain i mewn iddi efo cyn-gytgan, sef adran fer sydd i fod i greu cyferbyniad.

Yn y gyn-gytgan maen nhw yn y cywair mwyaf, ac maen nhw wedi ychwanegu acen gref a symudiad cromatig.

Yn y gytgan, maen nhw'n ôl yn E leiaf efo ríff anferth y gân yn gyrru pob dim yn ei flaen.

A dyna'r ríff eto. Mae'r lleisiau'n ailadrodd, bron iawn yn gweiddi a dweud y gwir, ac mae'n gwneud i chdi eisiau ymuno efo nhw.

Mae roc i fod i bryfocio ymateb, ac mae'n hawdd clywed hynny yn y geiriau.

Bitesize

Mae cynnwys y caneuon yn medru bod am unrhyw beth - cariad, rhyw, gwrthryfela, emosiynau, cymdeithas, gwleidyddiaeth.

Mae'r caneuon roc gorau yn adrodd stori. Ydy *Anifail* yn sôn am anifeiliaid go iawn, neu ydy o'n drosiad am bobl yn ymddwyn yr un fath ag anifeiliaid? Eithaf barddonol.

Mae roc ar ei orau pan mae o'n fyw. Mae'n brofiad pŵerus, o'r galon.

Mae'r lleisiau mewn gig byw yn wahanol i beth sy'n cael ei recordio mewn stiwdio - mae 'na lai o sglein arnyn nhw, ac mae pob dim yn swnllyd ac yn anhrefnus rywsut.

A dw i wrth fy modd efo fo.